

Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd
Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd 2020/21



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES
POLICE**

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU



OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

CYNNWYS

1. RHAGARWEINIAD	3
2. NODI, CASGLU A DEFNYDDIO GWYBODAETH	5
3. AMCANION A CHYNNYDD CYDRADDOLDEB	6
4. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH	19
5. ASESIAU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB	20

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod y dyletswyddau cydraddoldeb a osodwyd ar gyrff y sector cyhoeddus. Mae Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi'u rhwymo gan y ddeddfwriaeth hon. Mae gennym gyfrifoldeb o dan y Ddeddf i fodloni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol gan arddangos hyrwyddiad o degwch a chdraddoldeb drwy weithredu gwasanaethau heddlu yng Ngogledd Cymru.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd yn gynllun pedair blynedd sy'n amlinellu'r heriau cydraddoldeb a wynebwr wrth blismona Gogledd Cymru a sut ydym yn bwriadu bodloni a goresgyn y rhain ar y cyd; cyhoeddwyd ailadroddiad presennol y cynllun ym mis Ebrill 2019. Roedd y cynllun hwn a ddiweddarwyd yn ymgorffori llawer o'r gwaith parhaus o'r cynllun blaenorol ac yn rhoi ffocws strategol wedi'i ddiweddararu ar gyfer cydraddoldeb yn Heddlu Gogledd Cymru hyd at 2023.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd yn cael ei adolygu bob blwyddyn hefyd. Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn parhau i fodloni anghenion yr Heddlu a'r Comisiynydd, ac yn bwysicach anghenion pobl Gogledd Cymru. Crëir adroddiad blynyddol gan ddangos ein cynnydd a'n cyflawniadau ac mae'n rhoi mwy o fanylion ar y gweithgarwch a ymgwymerir gan yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Dyma'r ail adroddiad blynyddol ar gyfer Cynllun 2019-2023.

Drwy gydol y cyfnod riportio hwn, mae plismona a chymdeithas yn gyffredinol wedi cael eu heffeithio'n fawr gan bandemig COVID-19 a chyfyngiadau dilynol deddfwriaeth Coronafeirws.

Drwy gydol y pandemig, nid yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi newid ac felly mae'r dyletswyddau a osodwyd ar Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau.

Mae Deddf Coronafeirws 2020 'yn cynnwys mesurau dros dro a gynlluniwyd i liniaru'r effeithiau hyn, gan gynnwys lledaeniad yr haint, a chynyddu gallu'r system gwasanaethau cyhoeddus'. Mae rhai o'r mesurau hyn wedi bod yn berthnasol i blismona ac mae'n amlwg, drwy orfodi'r cyfyngiadau hyn, fod rhai grwpiau wedi cael eu heffeithio'n fwy nag eraill, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig perthnasol oedran, hil ac anabled.

O ran gorfodi cyfyngiadau yng Ngogledd Cymru:

- Roedd saith o bob deg (70%) o drigolion yn teimlo bod yr heddlu wedi taro cydbwysedd da o ran cymhwyso rheolau a rheoliadau cyfyngiadau COVID-19.
- Roedd tua chwarter (23%) yn anghytuno – gyda'r rhan fwyaf yn dadlau bod yr heddlu wedi bod yn rhy drugarog (20%), er bod detholiad bach (3%) yn dweud eu bod wedi bod yn rhy lym.
- Mae dros bedair rhan o bump (84%) o drigolion yn cefnogi camau gweithredu'r heddlu i orfodi cyfyngiadau symud lleol, gyda dros hanner (54%) yn dweud eu bod yn ei gefnogi'n gryf.
- Dim ond 6% sy'n gwrthwynebu gweithredu gan yr heddlu i orfodi cyfyngiadau symud lleol.

Rydym yn cael ein cymell i gael gwared ar anghydraddoldeb lle mae'n bodoli yn ein gwasanaeth. Mae'r amseroedd heriol ac ansicr hyn wedi caledu ein penderfyniad o ran hyn. Mae math a natur trosedd sy'n gyffredin yng Ngogledd Cymru wedi newid oherwydd effaith y pandemig. Fodd bynnag, rhaid cynnal ansawdd ein gwasanaeth a sut y cyflawnir hyn i'n holl gymunedau. Rydym yn parhau i asesu effaith ein gweithgarwch a monitro ein gwasanaeth.

1.2 Cyfrifoldebau

Yn y pen draw, mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am sicrhau y bodlonir gofynion y ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd yn amlinellu sut wnawn fodloni gofynion dyletswyddau cyffredinol a phenodol Deddf Cydraddoldeb 2010.

O fewn y Cynllun rydym wedi gosod amcanion cydraddoldeb ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Gwnaiff yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyflawni'r camau a fydd yn ein galluogi i fodloni'r amcanion hyn. Cesglir tystiolaeth o gynnydd y camau hyn gan Uned Amrywiaeth yr Heddlu ac fe'i goruchwylir gan Fwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Heddlu. Mae'r Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn fwrdd strategol sy'n cwrdd yn chwarterol sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl. Darperir gwaith craffu gan Gymdeithasau Staff, Rhwydweithiau Cefnogaeth Staff ac aelodau Annibynnol; mae'r trefniadau hyn a'r gwaith sy'n digwydd yn cael ei fonitro gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

2. NODI, CASGLU A DEFNYDDIO GWYBODAETH

Rydym yn nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth gan nifer o wahanol ffynonellau i gynorthwyo ein cynllun cydraddoldeb.

2.1 Ein Cymunedau

Gall cael sianelau ymgysylltu da gynorthwyo i wella boddhad mewn plismona ymysg cymunedau, yn enwedig y rhai hynny sydd efallai yn teimlo o dan anfantais, wedi'u heithrio, yn fregus, wedi'u hynysu neu eu hymylu. Gwnaethom felly benderfynu y dylem barhau i gynnal lefelau presennol o ymgysylltiad yn enwedig gyda chymunedau lleiafrifol. Mae deall ein cymunedau, ymgysylltu safonol a chysylltiadau da â nhw yn hanfodol ar gyfer cynyddu hyder yn y gwasanaeth rydym yn ei gyflawni.

Mae ein system bresennol o weithio gyda grwpiau cymunedol¹ yn parhau i fod yn ffordd effeithiol o ymgysylltu; mae hyn wedi'i gadarnhau mewn adborth gan grwpiau unigol, y grŵp Llywio Amrywiaeth ac Aelodau ein Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

2.2 Ein Partneriaid

Rydym yn cydnabod nad yw plismona'n digwydd mewn gwacter ac felly mae deall y darlun partneriaethau'n hanfodol. Gwnawn barhau i weithio ar y cyd â'n partneriaid a rhoi systemau mewn lle i alluogi casglu, coladu a dadansoddi data sy'n nodi anghymesuredd yn ein gwasanaeth. Bydd cyflwyno'r gwasanaeth ar y cyd hwn yn galluogi darparu gwasanaeth cyhoeddus mwy effeithiol ledled ein cymunedau.

2.3 Ein Sefydliad

Mae'r Heddlu'n creu a chyhoeddi ei Adroddiad Cynrychiolaeth Cyflogaeth sy'n cynnwys y camau mae'r Heddlu wedi'i gymryd i nodi a chasglu gwybodaeth cyflogaeth. Mae'n hanfodol ein bod yn deall cyfansoddiad ein gweithlu. Mae gennym ddulliau ffurfiol ac anffurfiol o ymgysylltu gyda'n staff er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn well sut i ddatblygu diwylliant sefydliadol cynhwysol sy'n hyrwyddo ac yn gosod amrywiaeth a chyraddoldeb.

¹Mae ein grwpiau ymgynghori'r heddlu a chymuned yn cynnwys Grŵp Anabledd, Grŵp LHDT+, Grŵp Hil, Grŵp Traws.

3. AMCANION A CHYNNYDD CYDRADDOLDEB

Rydym wedi gosod amcanion cydraddoldeb i blismona yng Ngogledd Cymru. Rydym hefyd wedi nodi gweithgarwch penodol i'n cynorthwyo i gyflawni hyn.

3.1 Agwedd Strategol at Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Amcan Cydraddoldeb	Monitro ac asesu ein hagwedd at y Ddeddf Cydraddoldeb ledled holl feysydd busnes gan sicrhau cydraddoldeb a thegwch drwy gydol y sefydliad a ledled ein blaenoriaethau plismona.
Camau Arfaethedig	<ul style="list-style-type: none">• Parhau i ymgymryd ag Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar benderfyniadau a wneir gan gynnwys polisi a chaffael.• Meddu ar Wobr Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a gwnawn weithio tuag at y Wobr Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.• Craffu ar faterion Safonau Proffesiynol (gan gynnwys cwynion ac anfodlonrwydd).• Cynnal proses gomisiynu deg a thryloyw ar gyfer holl wasanaethau a gomisiynir.• Ymgymryd â monitro barn staff.• Cynnal ac adnoddu trosolwg strategol Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Heddlu.• Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:**Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**

Mae'r cyfnod riportio hwn o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u hymgorffori'n ddyfnach fyth yn fframwaith sicrwydd Heddlu Gogledd Cymru, gan sicrhau proses fwy caeth a chynhwysfawr o sicrwydd. Mae asesiadau effaith ynghylch polisi ac ymarfer yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n cael eu goruchwyllo gan Fwrdd Sicrwydd Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd hwn yn rhoi sicrwydd bod digon o dystiolaeth bod polisi, rheoli risg a pharhad busnes yn ystyried effaith cydraddoldeb.

Arweinydd Hyderus o ran Anabledd

Yn dilyn adnewyddu achrediad y Cynllun Cyflogwr Hyderus Anabledd yn llwyddiannus, mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i wneud cynnydd tuag at y Wobr Arweinydd Hyderus Anabledd ac mae'n gweithio gyda phartneriaid lleol i ennill achrediad.

Craffu Pennaeth Safonau Proffesiynol

Mae amrywiaeth o fecanweithiau craffu yn bodoli, mae'r rhain yn cynnwys Panel Cuddwybodaeth Pobl sy'n darparu amgylchedd dysgu i helpu i gynnal dysgu unigol a sefydliadol, fel nad yw materion mynych yn digwydd. Mae'r panel yn ystyried achosion byw sy'n ymwneud ag ymholiadau fetio, materion safonau proffesiynol, cwynion ac achosion o gamymddwyn.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn craffu'n drylwyr ar faterion safonau proffesiynol. Cynhelir Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol chwarterol sy'n cael ei gadeirio gan y CHTh ac a fynychir gan y DBG a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol. Cynhelir dadansoddiad o ystadegau'r Heddlu ynghylch cwynion a materion camymddwyn. Hefyd, trafodir tueddiadau, materion a dysgu sefydliadol cyfredol. Yn ogystal, mae'r CHTh yn cynnal proses samplo dip o faterion cwynion bob mis ac yn sicrhau ei bod yn cynnwys honiadau o wahaniaethu yn y weithdrefn samplo dip.

Gwerth Cymdeithasol

Mae Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i hyrwyddo ymlyniad parhaus at Gaffael Moesegol a'r agenda Gwerth Cymdeithasol. Mae hyn yn gwarantu nad yw gwario ar nwyddau, cyflenwadau a gwasanaethau yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol a rhanbarthol. dylai'r gwario hwn annog a sicrhau cyfleoedd cyfartal.

Arolwg Gweithlu

Yn 2019 lansiwyd Arolwg Cenedlaethol o Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant mewn Plismona i archwilio cynwysoldeb a diwylliant yn y gweithle. Ym mis Awst 2020 rhyddhawyd Adroddiad Crynodeb o Ganfyddiadau Ymchwil Mae

Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i weithio gyda'r Uned Ymchwil Plismona ym Mhrifysgol Durham i ystyried canfyddiadau lefel yr Heddlu ac i weithio ar arolygon dilynol yn y dyfodol a fydd yn olrhain agweddau ac ymddygiadau.

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

Llywodraethu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn ystod y cyfnod riportio hwn mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ceisio cryfhau a symleiddio'r ffordd y mae'n rheoli'r maes busnes hwn. I'r perwyl hwnnw, cyflwynwyd strwythur tair haen; disgrifir hyn fel:

Cyflawniad lleol - mae gan bob maes gwasanaeth Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel eitem sefydlog ar yr agenda yn eu cyfarfodydd uwch dîm rheoli, yma maent yn trafod pa weithgarwch sy'n digwydd ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth.

Rheolaeth dactegol - pob maes gwasanaeth ac unrhyw ddarnau pwrpasol o waith i gefnogi adroddiad y cynllun i'r Bwrdd EDI Tactegol, mae'r bwrdd hwn yn rheoli perfformiad ac yn cyflawni'r Strategaeth.

Goruchwyliaeth strategol - Mae'r Bwrdd EDI Tactegol yn riportio i'r Bwrdd EDI Strategol a gadeirir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, mae ganddo berchnogaeth ar y Strategaeth ac mae'n sicrhau bod Strategaeth y Gweithlu yn cyd-fynd â chynlluniau gwasanaeth cenedlaethol eraill yr heddlu.

Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys (OoCD)

Ers i'r Heddlu gyflwyno system a oedd yn galluogi penderfyniadau cliriach, mwy gwybodus a pherthnasol i'w gwneud mewn perthynas â Datrysiaidau Cymunedol, Rhybudd Amodol a Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, mae wedi gallu gweithredu nifer o baneli craffu i ystyried unrhyw feysydd neu anghymhelliad.

Mae'r Heddlu'n cydnabod mai'r mynediad i'r System Cyfiawnder Troseddol ydyw ac felly mae'n monitro meysydd o anghymhelliad o fewn y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa neu y sy'n cael eu trin gan waredu y tu allan i'r llys. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid, mae'r Heddlu'n ystyried unrhyw ddata anghymhelliad perthnasol, yn gwneud gwaith samplo dip gydag asiantaethau partner o fewn y System Cyfiawnder Troseddol ac yn cael ei gynorthwyo gan grŵp o gynghorwyr sy'n darparu craffu annibynnol.

Mae'r Heddlu bellach mewn sefyllfa well i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd o anghymhelliad a'u lleihau.

3.2a Cyflwyno Gwasanaeth

Amcan Cydraddoldeb	Defnydd effeithiol a theg o rymoedd.
Camau Arfaethedig	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau nad oes anghymesuredd ledled gweithgarwch plismona allweddol penodol fel stopio a chwilio, arestiadau, cadw ayyb. • Sicrhau nad oes anghymesuredd wrth ddefnyddio grym. • Arddangos cyflwyno Cod Moeseg yn briodol. • Gwella boddhad

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

Anghymesuredd
<p>Y cyfnod riportio hwn comisiynwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Anghymesuredd gan y Bwrdd EDI Tactegol i gynnal ymarfer mapio ac i ystyried y llywodraethu a'r lefelau presennol o graffu ynghylch anghymhelliad o fewn data.</p> <p>Ystyriwyd nifer o weithgareddau plismona allweddol gan gynnwys: Stopio a Chwilio, Defnyddio Grym, Cwynion, Ymddygiad, Fetio, Cadw, Gwaredu y Tu Allan i'r Llys a Throsedd Casineb. Cadarnhaodd y Grŵp drefniadau llywodraethu pob thema, sicrhau bod gwaith craffu mewnol ac allanol wedi'i sefydlu a'i adrodd yn ôl ar 'fylchau data' posibl a sut i ddatblygu mesurau perfformiad.</p>
Defnyddio Grym
<p>Yn ogystal â'r uchod, mae'r Heddlu yn cynnal lefel o graffu sy'n benodol i'r Defnydd o Rym; i wneud hynny mae'n defnyddio nifer o fforymau; mae'r rhain yn cynnwys: Y Byrddau Craffu Rheoli Gwrthdaro Tactegol a Strategol (mewnol) a Bwrdd Cyfarfod Cyhoeddus (allanol).</p> <p>Dyma enghraifft o sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn chwilio am anghymesuredd wrth ddefnyddio pwerau, yn ceisio deall achosion gwahaniaeth ac yn nodi ffyrdd o fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau a geir.</p>
Cod Moeseg
<p>Yn dilyn arolwg (PEEL) diweddar gan HMICFRS mae'r Heddlu wedi'i hysbysu fod ganddynt ddealltwriaeth gref a chyson o'r Cod Moeseg. Mae wedi mynd ymlaen i ddatblygu ymhellach yn y maes hwn.</p> <p>Mae Pwyllgor Moeseg yr Heddlu yn gyfrifol am 'wella ymddiriedaeth a hyder ym maes llywodraethu moesegol a gweithredoedd Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd'. Mae'r cyfnod riportio hwn wedi datblygu gwaith craffu annibynnol y pwyllgor hwn ymhellach ac yn ddiweddar rydym wedi recriwtio aelod annibynnol i weithredu fel Cadeirydd.</p> <p>Drwy'r pwyllgor hwn gall aelodau Heddlu Gogledd Cymru gyflwyno 'cyfyng-gyngor moesegol' i'w trafod ac mae'r pwyllgor hefyd yn cysylltu â Grŵp Cyfarwyddyd Moeseg Heddlu'r Deyrnas Unedig.</p>

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

Gwella boddhad

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ceisio nodi ac ymgysylltu â'r cymunedau amrywiol y mae'n ei wasanaethu i fynd i'r afael â chanfyddiadau andwyol posibl a gwella lefelau boddhad i bob cymuned. Mae Arolwg Hyder y Cyhoedd 2020 yn dangos y canlynol:

- Mae hyder y cyhoedd yn yr Heddlu yn parhau'n uchel ar **93%**, o'i gymharu â 89% yn arolwg 2019).
- Mae **78%** yn meddwl fod yr Heddlu'n gwneud gwaith da neu ardderchog.
- Mae **95%** o'r cyhoedd yn meddwl y byddai'r Heddlu'n eu trin â pharch pe byddent yn dod i gysylltiad â nhw (92%)
- Mae **87%** o'r cyhoedd yn meddwl y byddai'r Heddlu'n eu trin â thegwch gwaeth pwy ydynt (85%).
- Mae tua **75%** o'r cyhoedd yn credu bod yr Heddlu'n delio â phethau sy'n bwysig i'r gymuned, y gellir dibynnu arnynt i fod yno pan fo angen, rhoi sicrwydd, darparu gwasanaeth effeithiol a darparu gwerth da am arian (tua 70%).
- Mae **92%** o bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru yn teimlo'n ddiogel rhag dioddef trosedd ac anhrefn (86%).
- Mae **97%** o bobl yn teimlo bod Gogledd Cymru yn fwy diogel, neu'r un mor ddiogel, o'i gymharu â gweddill y DU.
- Mae pedair rhan o bump (**80%**) o drigolion yn teimlo bod Gogledd Cymru yn fwy diogel; gyda thua hanner (48%) yn teimlo ei fod yn llawer mwy diogel. Dim ond 2% sy'n teimlo ei fod yn llai diogel, tra bod 17% yn teimlo bod Gogledd Cymru mor ddiogel â gweddill y DU. Mae cyfran y trigolion sy'n teimlo bod Gogledd Cymru yn fwy diogel na gweddill y DU wedi cynyddu'n sylweddol 8 pwynt canran o gymharu ag arolwg 2019 (72%).

O ran cyfyngiadau sy'n ymwneud â phandemig Covid-19:

- Roedd saith o bob deg (**70%**) o drigolion yn teimlo bod yr heddlu wedi taro cydbwysedd da o ran gorfodi'r rheolau a rheoliadau cyfyngiadau COVID-19. Roedd tua chwarter (23%) yn anghytuno - gyda'r rhan fwyaf yn dadlau bod yr heddlu wedi bod yn rhy drugarog (20%), er bod detholiad bach (3%) yn dweud eu bod wedi bod yn rhy lym.
- Mae dros bedair rhan o bump (**84%**) o drigolion yn cefnogi camau gweithredu'r heddlu i orfodi cyfyngiadau symud lleol, gyda dros hanner (54%) yn dweud eu bod yn ei gefnogi'n gryf. Dim ond 6% sy'n gwrthwynebu gweithredu gan yr heddlu i orfodi cyfyngiadau symud lleol.

3.2b Cyflwyno Gwasanaeth

Amcan Cydraddoldeb	Cyflwyno gwasanaeth yn hygyrch ac ymatebol.
Camau Arfaethedig	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella'r prosesau cyfathrebu ar gyfer cyflwyno gwasanaethau (e.e. iaith arwyddion, cyfieithu ayyb). • Codi ymwybyddiaeth gyffredinol am droseddau casineb a thrais domestig. • Ymgysylltu a chyfathrebu gyda phobl yn ein cymunedau am droseddau sy'n achosi'r niwed mwyaf i bobl fregus. • Cynnal proses craffu troseddau casineb sy'n cynnwys craffu ar ddata cyflawni troseddau casineb. • Craffu data cam-drin domestig a thrais rhywiol. • Ymgymryd ag ymgyrchoedd wedi'u targedu i godi ymwybyddiaeth am anabledd sy'n berthnasol i drosedd casineb a'i effeithiau ar ddiodefswyr bregus yn benodol, yn enwedig y rhai hynny gydag anawsterau dysgu. • Cefnogi a hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb. • Adolygu data ar droseddau yn erbyn pobl hŷn er mwyn sicrhau fod diodefswyr hŷn yn derbyn gwasanaeth teg.

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

Cyfathrebu

Yn y cyfnod riportio hwn rydym wedi rhyddhau'r fideo Sut i gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer argyfyngau a rhai nad ydynt yn rhai brys a gwybodaeth am y testun gwasanaeth negeseuon testun byr (SMS) ar gyfer y gymuned fyddar.

- O'i gymharu â'r llynedd, mae cyfran y trigolion a ddywedodd eu bod nhw wedi cysylltu'n hawdd â Heddlu Gogledd Cymru drwy bob un o'r dulliau cyswllt sydd ddim yn rhai brys wedi cynyddu'n gyffredinol, yn enwedig drwy'r rhif di-argyfwng 101 (**89%** eleni o gymharu â 69% y llynedd).
- Pan ofynnwyd iddynt o dan ba amgylchiadau, os o gwbl, y byddent yn defnyddio dull ar-lein i gysylltu â'r Heddlu mewn argyfwng, dywedodd un rhan o bump (**20%**) na fyddent yn defnyddio dull ar-lein i gysylltu â'r Heddlu mewn argyfwng.
- Roedd preswylwyr yn disgwyl ymateb cynt i unrhyw ymholiadau a wneir drwy'r sgwrs ar y we (roedd **27%** yn disgwyl ymateb o fewn 10 munud) ond yn barod i aros ychydig yn hirach am ymateb i ymholiadau a wnaed drwy e-bost/gwefan Heddlu Gogledd Cymru (roedd **38%** yn disgwyl ymateb o fewn 24 awr).

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

Codi Ymwybyddiaeth

Mae'r CHTh ac Uned Caethwasiaeth Fodern yr Heddlu wedi mynychu, cefnogi ac wedi rhoi sesiynau ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth fodern lle bu'n bosibl gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys areithiau gan y Comisiynydd a chyflwyniadau mewn sefydliadau fel y Soroptomists a Bord Gron Wrecsam.

Mae'r Heddlu a SCHTh wedi cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o wahanol fathau o faterion caethwasiaeth fodern, gan gynnwys llafur gorfodol a chamfanteisio troseddol (Llinellau Cyffuriau).

Ymgyrchoedd Cam-drin Domestig Yn Ystod Cyfyngiadau Covid-19

- Gweithio gyda Gwirfoddolwyr yr Heddlu i ddosbarthu taflenni i bob Banc Bwyd ar draws Gogledd Cymru a oedd yn tynnu sylw at Gam-drin Domestig i ddiodefwyr a 'gwylwyr' fel y gallent ei adnabod a gwybod beth i'w wneud pe baent yn ei weld neu'n ei amau.
- Taflennu drwy wasanaeth danfon i'r cartref Tesco.
- Anfonwyd yr un wybodaeth drwy'r post hefyd at bob fferyllfa ar draws Gogledd Cymru.
- Torri'r Distawrwydd - Sesiwn hyfforddi Trinwyr Gwallt a Harddwyr (a gyflwynwyd ychydig cyn y cyfyngiadau symud)
- Sesiynau holi ac ymateb ar Instagram ynghylch Stelcian ac Aflonyddu a Cham-drin Domestig ar ddiwrnod y Rhuban Gwyn. (Cyfyngiadau Symud #2)
- Rhoddodd diwrnod Rhyngwladol y Dynion (Tachwedd 2020) gyfle i ni hyrwyddo gwasanaethau i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig, drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Fenter Dynolryw.
- Cymerodd arweinydd strategol PVPU Gogledd Cymru ar Gam-drin Domestig ran mewn rhaglen ar gyfer Channel 5 ynghylch sut i adael cymar sy'n cam-drin. Roedd y rhaglen yn berthnasol i Covid ac yn cael ei hyrwyddo ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Heddlu Gogledd Cymru.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gysylltiedig â'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn ddyddiol er mwyn monitro lefelau lloches rhag ofn bod angen cynllun gwytnwch pe bai llochesi'n llawn.
- Mae'r grŵp SAS - Gwasanaethau Cyngori Goroewyr yn fenter newydd. Roedd y sesiwn ar-lein gyntaf ym mis Chwefror 2021 gyda rhai pellach wedi'u cynllunio. Mae'n ffordd i ddiodefwyr/goroewyr gysylltu â'r Heddlu, GEG, y GIG a phob un o'r Chwe Awdurdod Lleol i weld ble y gellir gwneud gwelliannau i ddarpariaeth gwasanaethau i'r rhai y mae Cam-drin Domestig yn effeithio arnynt.
- Anfonodd SCHTh gyfres o negeseuon Twitter a Facebook yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud cychwynnol yn rhannu gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth Cam-drin Domestig a Thrais gan bwysleisio pwysigrwydd diodefwyr i gysylltu â'r heddlu, i gadw'n ddiogel, ac i gael mynediad at gymorth.
- Hefyd, paratôdd SCHTh erthygl ar gyfer dau o bapurau bro Cymraeg am y ffaith bod Cam-drin Domestig yn digwydd o fewn ein cymunedau gwledig Cymraeg a bod gan bob un ohonom gyfrifoldeb i adnabod yr arwyddion ac ati, yn enwedig yn ystod y pandemig pan fo diodefwyr wedi'u hynysu.

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:**Mentrau ar gyfer Pobl Fregus**

Cerdyn Cadw Cymru'n Ddiogel - O dan arweiniad Canolfan Reoli'r Heddlu, mae dau wirfoddolwr heddlu wedi'u recriwtio i reoli ac ailddatblygu cynllun Cerdyn Cadw Cymru'n Ddiogel. Roedd y cerdyn a lansiwyd i ddechrau yn 2016 wedi mynd yn segur oherwydd problemau o ran adnoddau wrth gynnal a chadw'r cynllun. Mae model cynaliadwy ar gyfer rhedeg y cynllun bellach wedi'i sefydlu gydag ymdrech i'w roi ar waith eto. Mae gwaith wedi dechrau ar ailsefydlu'r weinyddiaeth gefndir sydd ei hangen ar gyfer y cynllun.

Monitro Hysbysu ac Erlyniadau am Drosedd Casineb

Yn ystod y cyfnod riportio hwn (Ebrill 2020 - Mawrth 2021) gwnaeth adroddiad o Wasanaeth Erlyn y Goron roi'r ffigyrau trosedd casineb canlynol²:

- Roedd 85.6% (143/167) o holl erlyniadau Trosedd Casineb Heddlu Gogledd Cymru yn llwyddiannus (86.7% / 86.1%).
- Roedd 75% (21/28) o'r holl erlyniadau Troseddu yn Erbyn Pobl Hŷn yn llwyddiannus (81.8% / 84.3%).
- Roedd 87.7% (107/122) o'r holl erlyniadau trosedd casineb hiliol neu grefyddol yn llwyddiannus (86.5% / 87.0%).
- Roedd 77.5% (31/40) o'r holl erlyniadau trosedd casineb homoffobig neu drawsffobig yn llwyddiannus (88.8% / 83.5%).
- Roedd 100% (5/5) o'r holl erlyniadau trosedd casineb anabledd yn llwyddiannus (80.8% / 83.3%).

Gwarchod Pobl Fregus

Mae'r Heddlu wedi datblygu Bwrdd Llywodraethu Uned Amddiffyn Pobl Fregus sy'n dadansoddi perfformiad yr Heddlu o ran gwarchod a diogelu pobl fregus o fewn y blaenoriaethau plismona. Mae'r Bwrdd wedi'i symleiddio ond mae'n dal i gynnwys cynrychiolaeth o SCHTh. Mae gwaith y Bwrdd yn parhau i alluogi'r Heddlu a'r CHTh i gyfarwyddo nawdd yn briodol, nodi rhwystrau i lwyddiant a rhoi gwell gwasanaeth i ddioddefwyr yn gyffredinol.

Mae'r Heddlu a SCHTh wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o sefydlu bwrdd strategol rhanbarthol newydd i fonitro a goruchwyllo gwaith yr Heddlu, y Comisiynydd a phartneriaid rhanbarthol allweddol o ran mynd i'r afael â'r materion sy'n codi fregusder a chamfanteisio. Mae'r Bwrdd Breguswydd a Chamfanteisio newydd yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Prif ddiben y bwrdd newydd yw sicrhau perfformiad effeithiol gan yr heddlu, awdurdodau lleol a phartneriaid ehangach o ran sut y maent yn mynd i'r afael â materion allweddol megis cam-drin domestig, trais rhywiol, caethwasiaeth fodern a'r materion sylfaenol y mae'n eu codi megis masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethwasiaeth domestig a chamfanteisio troseddol (gan gynnwys Llinellau Cyffuriau). Mae'r holl faterion hyn yn fwy na phlismona yn unig ac mae angen dull partneriaeth o ddiogelu ac amddiffyn dioddefwyr a dod â throseddwyr i gyfiawnder. Mae pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol yn fwy tebygol o ddioddef sawl math o drosedd a gwmpesir yn yr agenda hwn gan gynnwys merched, pobl ifanc a'r rhai sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl.

²Mae ffigurau mewn cromfachau yn dangos canrannau cyfartalog; yn gyntaf, ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, yna i Gymru yn unig.

3.3 Y Gweithlu ac Amgylchfyd Gwaith

<p>Amcan Cydraddoldeb</p>	<p>Gweithio tuag at weithlu cynrychioladol a chreu amgylchfyd gwaith sy'n cynnwys pawb ac sy'n annog holl staff i ddatblygu a chynyddu.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu Strategaeth Cynrychioli'r Gweithlu'r Heddlu a sicrhau yr edrychir trosto a'i fod yn cael ei graffu. • Targedu unigolion o gefndiroedd lleiafrifol er mwyn sicrhau fod yr amrywiaeth yn ein Heddlu yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn. • Sicrhau fod gan rwydweithiau cymorth staff mewnol ymgysylltiad rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd. • Monitro data a chyhoeddi Adroddiad Cynrychioli'r Gweithlu Blynyddol. • Gwnaiff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd graffu polisi ac arfer AD. • Sicrhau fod y Fframwaith Golau Glas yn gyrru gweithgarwch i wella iechyd a llesiant i holl aelodau staff.

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

Cynrychioli'r Gweithlu

Yn dilyn cyflwyno Tîm Cynrychiolaeth y Gweithlu newydd y llynedd, gwnaed llawer o gynnydd yn y maes hwn. Sefydlwyd y tîm i gyflawni ymrwymiad yr Heddlu tuag at gael Gweithlu cynrychioliadol sy'n allweddol ar gyfer ymddiriedaeth, hyder a chyfreithlondeb fel y gallwn ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'n holl gymunedau.

Mae'r tîm yn gyrru Gweithredu Positif mewn sawl maes gan gynnwys gweithgareddau denu staff, recriwtio, dilyniant a chadw staff. Mae'r Heddlu bellach yn dechrau gweld y canlyniadau cadarnhaol y gall y gwaith hwn ei gyflawni. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cysylltu â 'Phecyn Cymorth Ein Gweithlu' Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

Rhwydweithiau Cefnogi Staff

Mae'r Heddlu yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd ar gyfer 'cynrychioli llais' ar bob lefel ac mae'n awyddus i ddeall 'profiad byw' ei staff, felly mae'n cefnogi annibyniaeth ei Rhwydweithiau Cymorth i Staff. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cynnwys swyddogion yr heddlu a staff sy'n gwirfoddoli i gefnogi'r grwpiau annibynnol hyn. Eleni mae gennym bum Rhwydwaith Cefnogaeth i Staff sy'n cynrychioli grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymdeithas Heddlu Du ac Asiaidd
- Y Rhwydwaith Cynorthwyo Anabledd
- Y Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd
- Rhwydwaith LHDT+
- Rhwydwaith Rhieni a Gofalwyr

Mae gan bob un o'r rhwydweithiau gylch gorchwyl ac mae'n cyfarfod o leiaf bob chwarter. Maent hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion rhyngadrannol drwy gyfarfod 'Hwb Cydraddoldeb'. Mae'r rhwydweithiau'n eistedd ar lawer o Fyrddau Tactegol a Strategol yr Heddlu sy'n cyfarfod, ac maent yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r Heddlu ac yn dwyn HGC i gyfrif am amrywiaeth o faterion. Yn ogystal, byddant yn cyfarfod â'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Monitro Cyflogaeth

Eleni rydym wedi gwella ein gallu i gasglu data monitro cyflogaeth mewn amser real a thrafodir hyn mewn amrywiaeth o fforymau, y gwaith craffu hwn sy'n cyfarwyddo ein gweithgarwch Gweithredu'n Bositif. Eleni, cyflwynwyd Safonau Cenedlaethol Data'r Gweithlu gan y CCPSH, mae'r safonau hyn yn sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff data sy'n ymwneud â Nodweddion Gwarchoddedig eu cofnodi ar draws Gwasanaeth yr Heddlu. Mae llawer o waith wedi'i wneud eleni i ymgorffori'r safonau hyn yn ein systemau sy'n golygu y bydd gan Adr nag erioed o'r blaen.

Dadansoddiad o'r Bwlch Cyflog ar Sail Rhywedd

Unwaith eto, mae'r Heddlu wedi cyflawni ei ddyletswydd benodol o gyhoeddi data sy'n ymwneud â Chyflog Rhyw. Mae adroddiad eleni'n dangos, yn gyffredinol, fod bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn HGC wedi gostwng unwaith eto. O'i gymharu â llynedd, mae gostyngiad wedi bod mewn swyddogion benywaidd yn y chwarter cyflog uchaf (o 21.3% i 24.2%), tra mae canran y swyddogion benywaidd yn y chwarter cyflog isaf wedi gostwng (o 45.1% i 44.6%). Mae rhagor o fanylion gan gynnwys eglurhad naratif a sut y bydd yr Heddlu yn parhau i fynd i'r afael â'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau i'w gweld yn y ddolen uchod.

Iechyd a Lles

Mae'r Fframwaith Llesiant Golau Glas yn becyn cymorth hunanasesu sy'n cynnwys dysgu o ledled y Gwasanaeth Heddlu, academia ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr. Mae'n herio'r gwasanaeth i wella iechyd a llesiant ei weithlu. Mae Pennaeth Gwasanaethau Meddygol a Lles HGC yn adrodd i Fwrdd Iechyd a Lles Strategol ac yn dweud ein bod wedi'n datblygu'n llawn o 69%, 28% yn cael eu datblygu a 3% heb eu datblygu o fewn y fframwaith. Mae Pennaeth Gwasanaethau Meddygol a Lles yn cyfarfod bob chwarter gyda'r Arweinydd Lles i asesu cynnydd.

3.4 Gweithio mewn Partneriaeth Effeithiol

Amcan Cydraddoldeb	Sicrhau cysylltiadau gweithio effeithiol gyda phartneriaid statudol a thrydydd sector.
Camau Arfaethedig	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a datblygu gwaith gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. • Nawdd/digwyddiadau ar y cyd/cynorthwyo partneriaid y trydydd sector. • Digwyddiad blynyddol ar gyfer ymgynghori gyda phartneriaid trydydd sector (CCPSH).

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

<p>Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru</p> <p>Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSen) yn rhwydwaith anffurfiol o bartneriaid sy'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae cynrychiolaeth partneriaid sector cyhoeddus yn cynnwys: Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Awdurdod Parciau Cenedlaethol Eryri. Mae NWPSen yn cynnal ymwybyddiaeth o flaenoriaethau a nodwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn hwyluso ymgysylltu ag amrywiaeth o unigolion gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig ac yn cynhyrchu amrywiaeth o ganllawiau arfer da i hysbysu sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Gogledd Cymru. Gweler hefyd yr adran ar Weithio mewn Partneriaeth isod (t. 19).</p>
<p>Digwyddiad Blynyddol Ymgysylltiad y Trydydd Sector â SCHTh</p> <p>Cynhaliwyd digwyddiad ar-lein ddiwedd 2020. Gwahoddwyd pob aelod o'r trydydd sector sydd â diddordeb mewn cyfiawnder troseddol a materion cysylltiedig. Cynhaliwyd y digwyddiad i gael barn ar newidiadau canol tymor i'r Cynllun Heddlu a Throsedd.</p>
<p>Deall Darlun y Bartneriaeth</p> <p>Mae'r Heddlu'n gweithio gyda phartneriaid lleol i ddeall beth yw'r cyfrifoldebau unigol a'r rhyngddibyniaethau allweddol ar y cyd mewn perthynas â darparu gwasanaethau ar y cyd. Gweler hefyd yr adran ar Weithio mewn Partneriaeth isod (t. 19).</p> <p>Yn y cyfnod riportio hwn, cadarnhawyd Cyd-bartneriaethau a Pholisi Cydweithredu i sicrhau bod unrhyw gydweithio yn gymesur ac yn briodol. Mae cadw at y Polisi yn creu cyfleoedd sylweddol i wella gwasanaethau a lleihau costau cysylltiedig; mae hefyd yn sicrhau bod trefniadau monitro priodol ar waith.</p>
<p>Mynd i'r Afael ag Anghymesuredd</p> <p>Yr heddlu yw'r pwynt mynediad i'r system cyfiawnder troseddol, felly mae'r Heddlu'n cynnal dadansoddiad i nodi anghymhellid mewn pobl sy'n cael eu dwyn i'r ddalfa neu yr ymdrinnir â hwy drwy waredu y tu allan i'r llys. Sefydlwyd Panel Craffu Aml-asiantaeth y Tu Allan i'r Llys i adolygu achosion sampl ac i ddeall achosion anghymesuredd a chymryd camau i fynd i'r afael a hyn lle mae'n digwydd.</p>

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:**Cyflwyno Gwasanaeth ar y cyd**

Mae'r Heddlu'n gweithio gyda nifer o bartneriaid strategol i nodi addewidion allweddol a datblygu strategaethau system gyfan i gyflawni gweledigaeth leol a rennir. Mae enghreifftiau diweddar o hyn yn cynnwys:

- Glasbrint Troseddwyr Benywaidd i Gymru
- Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru
- Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid i Gymru

3.5 Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Amcan Cydraddoldeb	Sicrhau ein bod yn ymgysylltu a chyfathrebu gyda phobl Gogledd Cymru ac ein bod yn gwneud mewn ffordd hygyrch a chynhwysol.
Camau Arfaethedig	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a chynyddu fforymau a grwpiau cydraddoldeb rhanddeiliaid i'r cyhoedd ac i staff. • Rheoli a chynnal cysylltiadau gyda rhanddeiliaid allweddol. • Ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu fel yr amlinellwyd yn Strategaeth a Chynllun Ymgysylltu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. • Darparu gwybodaeth a chyfathrebu mewn ffyrdd hygyrch. • Cynnal cysylltiadau gyda phartneriaid lleol • Craffu ymgysylltiad plismona lleol yr Heddlu.

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:**Cronfa Ddata Cysylltiadau Cymunedol**

Yn ogystal â'r fframwaith ymgynghori cymunedol chwarterol y cyfnod hwn, mae'r Heddlu wedi creu Cronfeydd Data Cysylltiadau Cymunedol newydd, mae'r rhain yn ddogfennau byw a fydd yn cael eu cynnal a'u diweddarau gan ardaloedd plismona. Bydd y wybodaeth yn y dogfennau hyn yn helpu i lywio Pecynnau Cymorth Ymgysylltu newydd.

Mae cyflawniadau yn y cyfnod riportio hwn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

Strategaethau Ymgysylltu

Datblygwyd Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Heddlu gyda rhestr o offer ac argymhellion ymgysylltu tactegol ar gyfer y dulliau cyfathrebu gorau wrth ymgysylltu â gwahanol grwpiau cymunedol. Datblygwyd y pecyn cymorth hwn ar y cyd â grwpiau cymunedol.

Mae Strategaeth Ymgysylltu SCHTh yn cael ei chwblhau ac mae Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r gwaith hwn i sicrhau bod prosesau ymgysylltu parhaus yn parhau i fod yn hygyrch ac yn briodol i'n holl gymunedau.

Pobl Ifanc

Ym mis Ebrill 2020, cwblhaodd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru eu prosiect ymgysylltu â phobl ifanc a rhoddwyd eu hadroddiad terfynol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y blaenoriaethau plismona ar gyfer pobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Mae'r Heddlu a'r Comisiynydd wedi bod yn gweithio tuag at yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ac wedi bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect. Er mwyn symud y gwaith yn ei flaen, mae'r Heddlu wedi recriwtio Swyddog Ymgysylltu ac Ymyrryd Ieuenctid i adeiladu ar y gwaith i ymgysylltu â phobl ifanc ar faterion plismona ac i hwyluso cyfranogiad gwell a mwy cadarn gan bobl ifanc mewn materion plismona yng Ngogledd Cymru.

Defnyddio Mwy o Ddarllen Hawdd

Pan mae'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd yn cyhoeddi deunydd, maent yn ceisio gwneud mewn fformatau hygyrch. Enghraifft ddiweddar yw'r arolwg cyhoeddus ar-lein i gael barn ar flaenoriaethau newydd yr heddlu a throsedd ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd. Mae cyhoeddi fersiynau 'hawdd eu darllen' o'r arolwg yn galluogi sawl grŵp i gymryd rhan yn fwy effeithiol mewn bywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynorthwyo gydag ymgysylltu gyda phobl iau, y rhai hynny gydag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai hynny sy'n defnyddio'r Gymraeg / Saesneg fel iaith ychwanegol i'w mamiaith.

Gweler hefyd: Datganiad Hygyrchedd ar gyfer www.north-wales.police.uk

4. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Yn ychwanegol at osod ein hamcanion cydraddoldeb ein hun fel sefydliad, rydym hefyd wedi gweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (y Rhwydwaith) i ddatblygu cyfres o amcanion cydraddoldeb a rennir.

Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys nifer o bartneriaid lleol allweddol gan gynnwys chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru³, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Heddlu a SCHTh.

Ystyrir y gweithio mewn partneriaeth drwy'r Rhwydwaith i fod yn agwedd arfer gorau i gydraddoldeb drwy gydweithredu. Yn flaenorol, mae wedi derbyn clod gan weinidogion Cymru.

Wrth osod ein hamcanion ni a'r rhai a rannwyd gyda phartneriaid lleol, rydym wedi dilyn gofynion y dyletswyddau penodol. Rydym wedi defnyddio ymchwil cenedlaethol, gwybodaeth leol a gwybodaeth o ymgysylltu ac ymgynghori gyda staff a'r cyhoedd i hysbysu ein penderfyniadau ar ba amcanion cydraddoldeb i'w gosod.

Ymchwil Cenedlaethol - cawsom fan cychwyn ar gyfer datblygu ein hamcanion cydraddoldeb.

Gwybodaeth Leol - caniatodd i ni nodi problemau lleol na chydabuwyd yn genedlaethol efallai. Gwnawn barhau i adolygu a dadansoddi gwybodaeth leol i sicrhau fod ein hamcanion yn parhau'n briodol a pherthnasol.

Gwybodaeth oddi wrth Ymgysylltiad - O wybodaeth genedlaethol rydym yn gallu sefydlu meysydd o bryder a nodi grwpiau sydd mewn mwyaf o risg o wahaniaethu. Gwnaethom yna ddefnyddio'r wybodaeth hon i arwain ein hymgysylltiad gyda phobl leol. Mae ein hymgysylltiad yn canolbwyntio ar themâu a materion rheolaidd sydd o bryder ar y cyd.

Ymgynghoriad gyda'r Staff a'r Cyhoedd - Gan ddefnyddio fforymau presennol a newydd rydym wedi cynnal sawl grŵp ffocws a oedd cynnwys pobl gyda nodweddion gwarchoddedig. Mae cyfraniad cyfranogwyr wedi cynorthwyo hysbysu'r amcanion sy'n rhan allweddol o'r Cynllun Cydraddoldeb.

Amcanion Partneriaeth - Wrth ystyried ei chyfrifoldebau ar y cyd, mae'r Rhwydwaith wedi datblygu ei hamcanion ei hun a rennir. Y rhain yw:

- Amcan 1: Trin anghydraddoldebau iechyd
- Amcan 2: Trin canlyniadau anghyfartal mewn Addysg i wneud y mwyaf o botensial unigol
- Amcan 3: Trin anghydraddoldebau mewn cyflogaeth a chyflog
- Amcan 4: Trin anghydraddoldebau mewn diogelwch personol
- Amcan 5: Trin anghydraddoldebau mewn cynrychiolaeth a llais
- Amcan 6: Trin anghydraddoldebau mewn mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Mae adolygiad llawn ar y gweill ar hyn o bryd o'r amcanion hyn. Rhagwelir y cytunir ar amcanion wedi'u diweddarau erbyn diwedd 2021.

³Conwy, Gwynedd, Môn, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam

5. ASESIADAU EFFAITH CYDRADDOLDEB

Pan mae'r Heddlu neu'r Comisiynydd yn gwneud penderfyniadau dylent ystyried y bobl a effeithir gan y penderfyniad hwnnw, boed hynny'n ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu bartneriaid hyd yn oed. Er mwyn gwneud hyn yn deg rydym yn defnyddio offeryn Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA). Diben yr EIA yw mesur a sicrhau tegwch ar draws y naw nodwedd warchoddedig⁴. Mae'n gweithio drwy sicrhau y rhoddir ystyriaeth i bolisïau, swyddogaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau er mwyn penderfynu a ydynt ag effaith sylweddol ar bobl. Os felly, asesir os oes annhegwch neu anfantais ymddangosiadol neu wirioneddol i'r rhai hynny a effeithir gan y penderfyniad hwnnw. Gweithreda'r EIA fel asesiad risg ac mae'n sicrhau fod ein penderfyniad yn talu digon o ystyriaeth i dri amcan Dyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ogystal â'r naw nodwedd warchoddedig, mae Dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth yn effeithiol ar gyfer cyrff cyhoeddus datganoledig Cymru o fis Mawrth 2021 ymlaen, i ystyried y bobl hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol/tlodi. Cyfeirir at hyn fel y Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol; mae'n annog gwneud penderfyniadau'n well, gan sicrhau canlyniadau mwy cyfartal i bobl, gan leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Nid yw'r Heddlu na SCHTh wedi'u rhestru fel 'awdurdodau perthnasol' o dan 'Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Anghydraddoldeb Economaidd-Gymdeithasol) (Cymru) 2021' ; fodd bynnag, yn ysbryd cydweithio a chyda golwg ar ddiogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, bydd ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hychwanegu at ein harferion ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae'r Heddlu hefyd wedi cyflwyno templed Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i sicrhau bod yr holl benderfyniadau polisi/proses/ymarfer yn ystyried darpariaeth y Gymraeg. Mae'r templed yn dangos tystiolaeth i ddangos sut y bodlonwyd Safonau'r Gymraeg. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Strategaeth Gymraeg ar y Cyd sydd hefyd yn sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, ac ymrwymiad i barhau i weithio fel sefydliad dwyieithog.

⁴Y naw nodwedd warchoddedig yw: Oed, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol.

